



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales


Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyfrol 5: 9622 rhan 3

peidio â defnyddio ampersand, fel yn yr enw Castell-nedd Port Talbot. Gellir defnyddio'r un dull â'r etholaeth, h.y. Port Talbot Maesteg.

18. Pen-y-bont/ Bridgend 70,202




Rhesymau

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn dref flaenllaw rhwng Abertawe a Chaerdydd. Bu â'i llywodraeth leol ei hun ers amser maith. Yn ogystal, bu ganddi etholaeth ers amser maith lle bu'n ganolog ac mewn man canolog. Dylai hyn barhau. Mae'r etholaeth uchod yn gosod Pen-y-bont ar Ogwr bron yng nghanol daearyddol yr etholaeth, gyda'r "ardal borthi" o gwmpas y dref wedi'i chynnwys.

Enw

Dyma dref flaenllaw â phoblogaeth sylweddol o'i chwmpas. Canolfan allweddol. Efallai y dylid defnyddio'r enw Cymraeg, Pen-y-bont, fel y gwnaed unwaith yn flaenorol.

19. Ogwr (&) Y Rhws/ Ogmore (&) Rhoose 70,175




Rheswm

Bu gan ardal Ogwr ei hetholaeth ei hun erioed. Fel y rhan fwyaf o etholaethau, mae angen ychwanegu ati. O'r holl ardaloedd cyfagos, y mannau i'r de sydd debycaf. Roedd ardaloedd gwledig yn arfer cynnwys y ddwy fath o ardal. Bellach, mae traffordd yr M4 yn mynd drwy'r ardal Ond mae ardaloedd ar y naill ochr a'r llall wedi parhau i gynnal yr un cymeriad. Felly, gall etholaeth debyg barhau.

Enw

Fel yn achos etholaethau blaenorol, cedwir yr enw Ogwr, ac mae Y Rhws yn dangos yr ychwanegiad, ac mae'n ardal o bwys. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei hadnabod gan mai dyna leoliad maes awyr Caerdydd. Ond byddai'r ddwy ward fwyaf yn y ddwy ardal yn rhoi'r enw Llanilltud (Fawr) Penprysg. Y dref fwyaf yw Tonyrefail. Mae Tonyrefail yr un peth yn y ddwy iaith. Felly, nid oes angen enw amgen a gellir rhoi un ffurf – Tonyrefail neu Tonyrefail Penprysg (yr unig le â dwy ward).

20. Y Barri Penarth 70,735



Rheswm

Dyma'r ardal fwyaf poblog ym Mro Morgannwg. Mae'n ardal gryno. Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch yn digwydd yn y ddwy dref. Mae'n ffurfio etholaeth gydlynus. Mae "dau ben" i Fro Morgannwg, sy'n hollol wahanol i'w gilydd. Mae'r etholaeth hon yn weddol unfurf.


Bu Penarth yn dref annibynnol ers cryn amser, a bu'n rhan o fwrdeistref Bro Morgannwg ers degawdau, bron i hanner canrif. Yn holl hanes y dref, nid yw erioed wedi ceisio bod yn rhan o Ddinas Caerdydd. Mae'n rhan o fwrdeistref Bro Morgannwg. Ynghyd â'r Barri a mannau tebyg. Cysylltwyd y dref â Chaerdydd mewn etholaeth er mwyn cynyddu niferoedd yr etholwyr yn unig. Nid oes angen hyn mwyach. Ar ben hynny, mae'n dref ym Mro Morgannwg a dylai fod mewn etholaeth yn y fwrdeistref honno. O ran y bobl sy'n protestio, naill ai mae ganddynt gysylltiadau agos â Chaerdydd. Neu maent yn dod yn wreiddiol o Gaerdydd neu'n gweithio yno, neu'r ddau. Ond mae mwyafrif y bobl ym Mhenarth yn perthyn i'r Fro. Nid ydynt yn perthyn i Gaerdydd. Mae bywyd beunyddiol yn digwydd yn y Fro ac mae'r holl wasanaethau, y dreth gyngor ac ati, yn ymwneud â Bro Morgannwg. Mae'n bosibl

iawn y bydd pobl yn ymweld â Chaerdydd. Fel y gwna llawer o bobl o lawer o ardaloedd, ar gyfer siopa ac ati. Ond nid ydynt yn byw yng Nghaerdydd, ac nid ydynt yn dymuno gwneud hynny, ond yn hytrach, yn y Fro.

Enw

Enwir yr etholaeth ar ôl dwy brif dref yr ardal.

21. Caerdydd – Y Castell/ Cardiff – Castle 71,106




Rheswm

Dyma wardiau sydd â chysylltiadau cryf yn rhan ganolog a rhan ddeheuol y ddinas. Maent yn ffurfio ardal weddol gryno. Mae dimensiynau'r etholaeth hon yn rhoi agosrwydd iddi. Ceir yma hanes a rennir.

Enw

Mae llawer o nodweddion arbennig yn yr etholaeth hon. Ond efallai mai'r castell sydd wrth ei gwraidd. Mae'n adnabyddus i bawb. Oherwydd bod y gair mor debyg yn y ddwy iaith, mae'r ystyr yn glir. Felly, gellid defnyddio un gair i roi un ffurf. Fel arfer, defnyddir y Gymraeg. Felly, Y Castell neu Castell.

22. Caerdydd – Llandaf/ Cardiff – Llandaff 73,878




Rheswm

Mae'r etholaeth hon yn cynnwys ac yn cyfuno wardiau Llandaf ac Ystum Taf. Nid yw'n cynnwys unrhyw wardiau y tu allan i Gaerdydd. Un rhan o Gaerdydd.

Enw

Roedd Llandaf yn dref ers amser maith, cyn y datblygodd Caerdydd. Ar un adeg, roedd yn bwysicach o lawer na Chaerdydd. Bellach, mae'n rhan bwysig o Gaerdydd. Mae'r Gadeirlan yn nodwedd sylweddol ac yn dirnod. Yn ogystal, mae'n atyniad cryf i dwristiaid, ymhlith pethau eraill. Mae'n adnabyddus ac yn hysbys iawn i bawb, ac mae'n rhoi hunaniaeth a darlun cryf.

23. Caerdydd – Y Mynydd Bychan/ Cardiff – Heath 73,507


**Rheswm**

Dyma ran adnabyddus o Gaerdydd. Mae gan y wardiau gysylltiadau â'i gilydd. Mae'n ffurfio etholaeth unedig integredig.

Enw

Mae Ystad y Mynydd Bychan yn ymestyn dros lawer o'r etholaeth. Mae'r Mynydd Bychan yn adnabyddus oherwydd yr Ysbyty blaenllaw sydd yno. Gellid defnyddio'r enw Llanisien er mwyn cael un ffurf. Mae'n adnabyddadwy, a dyma'r ward â'r nifer fwyaf o etholwyr.

24. Casnewydd – Gwynllyw (&) Caerdydd – Llanelwng/ Newport – St Woolos (&) Cardiff – St Mellons 74,015



Rheswm


Mae gan yr ardaloedd hyn gysylltiad hir â'i gilydd. Yn wreiddiol, nid oedd yr ardal i'r dwyrain o afon Rhymni yn rhan o Gaerdydd na Morgannwg. Roedd yr holl ardal hon i'r dwyrain o afon Rhymni o fewn ardal wledig Magwyr a Llaneirwg – sef dosbarth gwledig Casnewydd, i bob pwrpas (yn amgylchynu Casnewydd). Roedd yn debyg i Gaerdydd, a oedd ag ardal wledig – sef dosbarth gwledig Caerdydd a oedd yn amgylchynu'r rhan fwyaf o Gaerdydd (o'r gogledd i'r gorllewin). Felly, mae gan yr ardal hon, sydd bellach yn rhan o Gaerdydd, gysylltiad hŷn â Chasnewydd yn hytrach na Chaerdydd. Mae hanes yn eu “huno”.

Hefyd, daearyddiaeth. Mae'r ddwy yn ddinasoedd, â “ffordd ddinesig o fyw”, felly mae'n ffurfio etholaeth sy'n unffurf – pobl ddinesig. Mae hefyd yn galluogi'r cymoedd i fod yn y cymoedd lle maent yn perthyn. Mae pobl y ddinas a phobl y cymoedd yn wahanol iawn i'w gilydd, yn wir. Nid oes gan dref Caerffili a Dinas Casnewydd unrhyw gysylltiad â'i gilydd nac unrhyw hanes ar y cyd. Yn wir, byddai Caerffili yn cyd-fynd yn well â Chaerdydd, gan fod ganddi fwy o gysylltiadau â Chaerdydd na Chasnewydd. Ond nid oedd pobl Caerffili eisiau cael eu gosod mewn etholaeth Caerdydd. Ac mae'r un peth yn wir am Gasnewydd. Ni ydynt yn gweld unrhyw reswm pam y dylid eu “gosod” â Chasnewydd. Mae Casnewydd a Chaerdydd gyda'i gilydd yn ffurfio “etholaeth ddinesig”. Nid yw hyn yn wir am Gasnewydd a Chaerffili. Os oes angen cynyddu niferoedd yr etholwyr yng Nghasnewydd a Chaerdydd, ac mae angen gwneud hynny, dylid eu gosod gyda'i gilydd fel y partneriaid mwyaf addas a phriodol ac ychwanegu un at y llall.

Enw

Dau o seintiau'r ardal yw Sant Mellon a Sant Gwynllyw. Maent yn flaenllaw yn hanes sefydlu'r ardal. Felly, mae'r enw yn eu cydnabod. Roeddent yn wleidyddol. Ond byddai angen enw arall ar gyfer cael enw unffurf. Felly, gellid defnyddio Casnewydd – Y Gaer (&) Caerdydd – Llanrhymni, neu'n syml, Casnewydd – Gaer Caerdydd – Llanrhymni. Mae'r Gaer a Llanrhymni yn adnabyddadwy ac yn adnabyddus. Rhoddir enw Casnewydd yn gyntaf yw am resymau etholaethol. Mae mwy o etholwyr yng Nghasnewydd nag sydd yng Nghaerdydd. Mae enw etholaeth yn cynnwys yr hyn sydd o ddiddordeb i'r etholaeth ac sydd bwysicaf. Yn amlwg, Caerdydd sydd bwysicaf o ran Cymru, gan mai dyma'r brifddinas a'r ddinas fwyaf. Ond ni ddylai trigolion Caerdydd gynhyrfu oherwydd hyn. Mae'r enw yn cynrychioli ac yn adlewyrchu'r etholaeth. Dim mwy, dim llai.

25. Casnewydd – Maendy/ Newport – Maindee 76,159



Rheswm

Mae rhan (hanner) ddwyreiniol Casnewydd o fewn yr amrediad etholiadol.

Enw

Mae Maendy yn ganolfan sylweddol yn nwyrain Casnewydd, o bosibl y brif ganolfan Mae pawb yn adnabod yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teithio drwyddi ar y ffordd i ganol y ddinas. Mae'n adnabyddus iawn.

O ran ffurf sengl, mae'r enw Casnewydd – Maendy yn adnabyddadwy a bydd pawb yn gwybod ble mae a beth mae'n cyfeirio ato. Efallai'r enw syml Casnewydd – Maendy.

26. Wysg/ Usk 72,681

Wardiau

Crucornau Fawr, Y Maerdy, Cantref, Llan-ffwyst Fawr, Bryn Llanelli, Llanwenarth Tu Draw, Y Fenni, Lansdown, Croesonnen, Y Priordy, Grofield, Y Castell, Llanofar, Llandeilo Gresynni, Dixon gydag Osbaston, Wyesham, Drybridge, Overmonnow, Llanfihangel Troddi, Llanofar, Goetre Fawr, Llanbadoc, Brynbuga, Rhaglan, Tryleg Unedig, St Arvans, Devauden, Llangybi Fawr, Drenwydd Gelli-farch, St Kingsmark, St Mary's, Larkfield, St Christopher's, Thornwell, Caer-went, Porth Sgiwed, Castell Caldicot, Dewstow, Green Lane, West End, Hafren, Rogiet, The Elms, Mill




Rheswm ac Enw

Ardal amaethyddol yw hon yn bennaf. Er bod mwyafrif y bobl yn byw mewn nifer fach o drefi. Mae'n ardal anniwydiannol, yn wahanol i'r rhan fwyaf o Dde Cymru. Felly, mae'n ffurfio "uned" ynddi ei hun. Mae'n cynnwys dwy nodwedd ffisegol yn bennaf. Sef Dyffryn Wysg sy'n ymestyn dros y mwyafrif helaeth o'r ardal. Mae'r afon Wysg yn llifo i mewn o'r gogledd ac yn llifo allan yn y de. Mae Dyffryn Gwy i'r dwyrain yn ffurfio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gyda'r dyffryn wedi'i rannu rhwng y ddwy wlad. Mae pencadlys yr awdurdod lleol ym Mrynbuga – mae'r dref yn ganolog dros ben i'r ardal. Mae popeth sy'n ymwneud â'r etholaeth yn digwydd ym Mrynbuga. Dyma leoliad swyddfeydd etholaethol ac ati. Felly, Brynbuga, afon Wysg, y dyffryn, y dref, yw'r canolbwynt y mae popeth yn symud o'u cwrdd. Roedd Sir Fynwy yn wreiddiol yn ymestyn o afon Gwy hyd at Rymni. Dim ond rhan fach o'r sir oedd yr ardal uchod, a'r lleiaf poblog. Yn wahanol i Sir Benfro a fu'r un peth erioed, nid yw hyn yn wir am yr ardal hon. Nid Trefynwy fu'r dref sirol ers amser maith, ac nid yw bellach yn fwy blaenllaw na lleoliadau eraill. Heddiw, Brynbuga yw'r brif dref. Felly, dyma'r ganolfan berthnasol. Mae'r afon, y dyffryn a'r dref yn rhannu'r un enw yn Saesneg, sef Usk, a dyma ddylai fod yr enw ar yr etholaeth. Mae'r rhan fwyaf o enwau yn enwau trefi neu ardaloedd mewn etholaethau (nodweddion ffisegol). Felly, yn hyn o beth, defnyddir yr enw Wysg/ Usk. O ran un ffurf, yr afon a'r dyffryn oedd yno gyntaf, felly Wysg fyddai'r enw. Enw Cymraeg y dref yw Brynbuga.

27. Llwyd/ Torfaen

70,591



Rheswm

Mae'n dilyn y cwm ac yn ffurfio etholaeth cwm, gan ddilyn afon Llwyd.


Enw

Fel arfer, enwir etholaethau cymoedd ar ôl y cwm dan sylw, gan ddefnyddio enw'r afon yn unig, heb y gair 'cwm' yn yr enw, e.e. Rhondda, ac felly â'r etholaeth cwm hon – Llwyd. Dywed rhai bod Torfaen yn addasiad o Afon Lwyd/ Llwyd. Dywed eraill mai dyma'r hen enw ar yr afon. Bellach, Lwyd/ Llwyd yw'r enw ar yr afon. Gan fod

etholaethau cymoedd yn cael eu henwi ar ôl y cwm, ar ôl yr afon, Llwyd fyddai'r enw. Ffurf sengl yw hon.

28. Ebwy

73,367




Rheswm ac Enw

Fel etholaeth cwm, mae'n dilyn cwm afon Ebwy. Er mwyn cydymffurfio â'r amrediad etholiadol, mae rhan o Sirhowi isaf wedi'i chynnwys. Dim ond Llwyd sy'n cynnwys un cwm yn unig ar gyfer etholaeth. Defnyddir yr enw Ebwy o ran dilyn traddodiad. Byddai'n enw unffurf.

29. Sirhowi & Rhymni

76,349




Rheswm ac Enw

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y ddau gwm, yn enwedig y rhan ganol o amgylch y Coed Duon. Mae'r Coed Duon yn ganolfan flaenllaw. Mae'r etholaeth yn dilyn y cymoedd hyn. Mae'r enw yn cynnwys enwau'r ddau gwm. Defnyddir y ffurf Gymraeg ar gyfer Rhymni (gweler uchod). Un ffurf yw'r cyfan sydd ei angen.

30. Merthyr & Aber

74,538

Wards
 Vaynor (2880) Cyfartha (5457) Park (3296) Gurners (3477)
 Penydarren (3918) Town (5998) Plymouth (4096) Beddington (2977)
 Merthyr Vale (2798) Treharris (5270) Nelson (3563) Aber Valley
 (4655) Pennyrheol (9021) Morgan Jones (5636) St Martins
 (6582)




Rhesymau

Ceir dau gwm yma, fel y mae'r enw yn ei awgrymu. Yn nhref Merthyr (fel y mae'r bobl leol yn ei galw) Merthyr yw'r enw a roddir ar gwm Taf yn y cyffiniau. Dangosir hyn yn yr enw Bro Merthyr. Mae cwm Aber yn cysylltu â thref Caerffili. Mae'r etholaeth yn dilyn yr un patrwm â holl etholaethau'r cymoedd. Yn hir ac yn denau, gan ddilyn y cwm (cymoedd). Mae gan Gaerffili lawer mwy yn gyffredin nag â Chasnewydd.

Enw


Mae'r enw yn cynnwys enwau'r ddau gwm dan sylw, heb y gair 'cwm'/'cymoedd' (gweler uchod). Byddai'n enw unffurf. Posiblwydd arall yw enwi'r etholaeth ar ôl y ddwy brif dref. Gellid defnyddio Merthyr Tudful (&) Caerffili fel enw ar gyfer yr etholaeth. Byddai un ffurf i'r enw (gweler uchod).

31. Cynon Taf 75,799

**Rheswm ac Enw**

Mae'r etholaeth yn dilyn dau gwm, gan ddechrau yng Nghwm Cynon a mynd ymlaen i Gwm Taf. Mae'n cynnwys Ffynnon Taf. Yn dilyn yr un patrwm â holl etholaethau'r cymoedd a enwir ar ôl cwm/ afon - Cynon a Thaf. Defnyddir y sillafiad Cymraeg ar gyfer Taf (oherwydd mae'r ystyr yn amlwg), felly dim ond un ffurf sydd ei angen. Gan hepgor y cysylltair. Felly, Cynon Taf.

32. Rhondda Trelai 71,208

**Rheswm ac Enw**

Gan ddechrau gyda'r Rhondda, mae'r etholaeth yn dilyn dwy afon a chwm Rhondda a Threlai. Felly, etholaeth hir a thenau ydyw sy'n dilyn y datblygiad hirgul. Mae'n cynnwys tref (a ward) y Rhondda yn yr etholaeth. Nid oes unrhyw gysyllteiriau yn yr enw. Defnyddir yr enw Cymraeg. Bydd y rhai hynny sy'n ei hadnabod fel Trelai yn unig yn gwybod ble mae'r Rhondda - mae'n adnabyddus. Felly, byddant yn gwybod mai lle ydyw - cwm gerllaw. Mae hyn yn golygu bod yr enw'n gallu bod ar un ffurf. Mae'n beth da cael un enw sy'n uno'r lle gydag un

hunaniaeth. Mae'n ffurfio etholaeth cwm dda.

Mae'r tri deg dau o etholaethau uchod i gyd yn gyfaddawd. Y prif ffactor yw'r amrediad etholiadol. Mae'n rhaid i etholaeth fod o fewn yr amrediad 69,724- 77,062. Fel y mae'r Comisiwn wedi'i ddweud, ar ôl hynny ystyrir beth sydd orau i'r etholaeth. Nid cael yr etholaethau mor agos i gwota'r Deyrnas Unedig (73,393) â phosibl yw'r nod. Nid cael amrywiant mor fach â phosibl yw'r nod. Yr unig nod yw bod o fewn yr amrediad etholiadol statudol.

Felly, nid yw'r amrywiant ar gyfer pob etholaeth wedi cael ei gynnwys. Yr unig ffactor i lynu wrtho yw'r amrediad etholiadol. Yr unig beth sy'n bwysig yw bod nifer yr etholwyr yn yr etholaeth o fewn yr amrediad statudol. Mae nifer yr etholwyr wedi cael ei chynnwys ar gyfer pob etholaeth. Nodir hyn ar frig pob etholaeth, fel arfer ar ôl teitl/enw'r etholaeth.

Nid oes unrhyw un ar 77,000. Mae tair oddeutu 76,000 (un yn gynnig cychwynnol), dwy ar 69,000, un oddeutu 52,000 (etholaeth warchodedig). Mae'r gweddill rhwng oddeutu 76,000 a 69,000. Nid yw'r un ohonynt yn ddelfrydol, cyfaddawd ydynt i gyd. Ond nid oes dewis arall mewn gwirionedd gydag amrediad etholiadol statudol o'r fath. Mae angen i ni anelu at gael y set fwyaf priodol ac addas o etholaethau (32). Mae'n debyg y byddai pawb eisiau rhai addasiadau a newidiadau, ond mae'n rhaid ystyried yr effaith gynyddol.

Y flaenoriaeth a'r nod yw taro cydbwysedd sy'n cynnig y gorau i bawb. Er enghraifft, mae'n ddealladwy iawn y byddai Trefaldwyn eisiau aros gyda'i gilydd (fel y byddai llawer o rai eraill). Mae'r uchod yn golygu nad yw hynny'n wir o ran pedair ward. Gan eu bod i gyd yn rhan o Bowys, heb unrhyw un o'r rhanbarthau/ siroedd gwreiddiol yn cael eu hystyried gan Bowys. Nid naill ai ffin ogleddol neu ddeheuol Maesyfed yw'r ffin rhwng y gogledd a'r de, ond rhywle yn y canol - ble yn union? Mae Powys yn defnyddio'r cymunedau i'w rhannu'n ogledd a de. Petaech chi'n rhoi'r pedair ward gyda Threfaldwyn yn etholaeth Maldwyn a Meirionnydd (Rhif 8), yna byddai'n rhaid i ran o Feirionnydd gael ei rhoi yn etholaeth Afon Dwyfor (Rhif 2). Mae'n ffodus bod yr etholaeth hon yn un o'r ddwy sydd oddeutu 69,000. Felly, mae'n bosibl ychwanegu ati (ni fyddai hyn yn bosibl ar gyfer llawer o rai eraill). Felly, mae'n rhaid i dair ward gael eu dileu o Feirionnydd a'u gosod yn etholaeth Afon Dwyfor - Bowydd a Rhiw (1235) Diffwys a Maenofferen (7791), Teifi (1355) Trawsfynydd (1088) Harlech (1516). Byddai hyn yn gwneud Afon Dwyfor yn etholaeth sy'n cynnwys 75,952 o etholwyr a Maldwyn Meirionnydd yn etholaeth sy'n cynnwys 71,167 o etholwyr. Byddai dileu'r pedair ward hyn o etholaeth Aberhonddu Maesyfed Dinefwr (Rhif 9) yn lleihau'r etholaeth hon islaw'r amrediad etholiadol. Felly, mae'n rhaid i chi ddod â mwy o wardiau i mewn i'r etholaeth hon o fannau eraill. I ychwanegu at elfen Dinefwr, byddai'n rhaid i chi gymryd wardiau o etholaeth Caerfyrddin (Rhif 12). Byddai hynny'n golygu dileu wardiau Llanybydder (2027), Cynwyl Gaeo (1351) a Llanfihangel Aberbythych (1503) o etholaeth Caerfyrddin a'u rhoi yn etholaeth Aberhonddu Maesyfed Dinefwr. Byddai hynny'n rhoi etholaeth o 7113 i Aberhonddu Maesyfed Dinefwr. Mae Caerfyrddin yn etholaeth sydd â nifer uchel (unwaith eto), felly nid oes angen ei hategu (fel y byddai'r rhan fwyaf) oherwydd bod gan Gaerfyrddin etholaeth o 70,253. Mae gosod pedair ward Sir Drefaldwyn/Maldwyn ym Meirionnydd yn golygu bod rhaid colli rhan ohoni, a bod rhaid i Afon Dwyfor gael rhai ychwanegol nad ydynt yn perthyn iddi.

Mae'n rhaid i Aberhonddu Maesyfed Dinefwr gael mwy o wardiau ac felly cymryd oddi ar Gaerfyrddin a dileu rhan o Gaerfyrddin. Dyma'r effeithiau ar gyfer pedair

ward yn unig. Lle mae'r ffin rhwng rhannau o Bowys yn rhywle arall bellach (rhwng dwy ffin yr hen Faesyfed). Felly, gyda'r nifer honno o newidiadau ar gyfer yr un newid hwnnw, ni ddylai'r newid hwnnw digwydd, at ei gilydd. Mae'n anffafriol i'r rhan fwyaf yn gyffredinol. Felly, ni ddylai ddigwydd. Fe allai rhai pobl ddweud ymhellach eu bod yn ceisio cael etholaethau sy'n agos at fod yn gyfartal. Felly, o ran yr uchod, mae etholaeth Caerfyrddin yn llai o lawer nag etholaeth gyfagos Sir Benfro (Rhif 11), gan fod honno'n un o'r rhai sydd oddeutu 76,000. Fe allent ddweud y dylai'r ddwy gael eu cydbwyso. Felly, symud dwy ward Cilgeti/ Begeli (1830) a Saundersfoot (1904) o etholaeth Sir Benfro i etholaeth Caerfyrddin. Yna, byddai gan Gaerfyrddin 73,987 o etholwyr a byddai gan Sir Benfro 73,128 o etholwyr, sy'n debyg. Byddai'n cadw "cwmni" i ddwy ward Llanbedr Felffre ac Amroth. Ond, fel y dywed y Canllaw a'r Cynigion Cychwynnol, nid dyna ddiben y Comisiwn. Nid yw'n ceisio cael amrywiant mor fach â phosibl ar gyfer pob etholaeth. Pan fydd etholaeth o fewn amrediad etholiadol, yr hyn sydd orau i'r etholaeth honno (ac etholaethau eraill) sy'n pennu ble yn yr amrediad etholiadol yw'r etholaeth benodol honno. Gan ei bod orau i gymaint o Sir Benfro â phosibl fod gyda'i gilydd yn yr etholaeth, ac i Gaerfyrddin gynnwys cyn lleied â phosibl o wardiau nad ydynt yn rhan o Gaerfyrddin, yna ni fyddai'r ymgais hwnnw i gydbwyso, neu unrhyw fath arall, yn digwydd. Felly, byddai Sir Benfro yn aros fel y mae (76,862 o etholwyr).

Y Cymoedd

Er y gallem ddweud bod pob rhan o Gymru yn arbennig, mae'r Cymoedd yn arbennig iawn. Maen nhw'n unigryw ac wedi cyfrannu cymaint at Gymru. Mae ganddynt gymeriad sy'n unigryw yn y Deyrnas Unedig gyfan. Maen nhw'n ffurfio cymuned glòs a chadarn iawn sydd â chysylltiadau eithriadol o gryf. Maen nhw'n haeddu cael eu cynrychioli'n iawn. Dylai pob cwm gael ei gynrychiolaeth ei hun. Roedd hyn yn wir am y cymoedd ar un adeg e.e. y Rhondda, Cynon, ac ati. Ond, nid yw hyn yn bosibl o ystyried yr amrediad etholiadol. Heblaw am un – Llwyd. Gall hwn gael ei etholaeth ei hun – etholaeth Llwyd (Rhif 27), oherwydd yr amrediad etholiadol statudol. O ganlyniad, mae'n rhaid i gymoedd rannu etholaethau bellach. Felly, bydd gan etholaeth ddau gwm (neu rannau o gwm), heblaw am Llwyd. Bydd y rhain yn gymoedd cysylltiedig. Hynny yw, Rhondda a Threlai, Cynon a Thaf, Merthyr ac Aber, Sirhowi a Rhymni, Ebwy a Sirhowi. Trwy'r rhain, gellir bodloni'r amrediad etholiadol statudol. Dyma'r rheswm dros ei wneud. Nid oes dewis arall.

The Valleys



Chwe etholaeth y Cymoedd

Llwyd (70,591) Ebwy (73,367) Sirhowi Rhymni (76,349) Merthyr Aber (74,538)

Cynon Taf (75,799) Rhondda Trelai (71,208)

Dylai pob un gael ei drin yn gydradd. Felly, dylai pob un fod yn hir ac yn denau gan ddilyn y cymoedd. Mae'n rhaid i etholaeth cwm fod yn gwm – wedi'i ffurfio i fod yn etholaeth cwm. Dylai pob etholaeth cwm gael ei ffurfio yn yr un ffordd, gyda phob un yn dilyn ei gwm/cymoedd. Dylai pob un fod yn etholaeth ar ffurf cwm. Mae gwahaniaeth rhwng bod yn etholaeth cwm (ar ffurf cwm) a bod yn etholaeth yn y cymoedd (heb fod ar ffurf cwm). Dylai'r holl etholaethau yn y cymoedd fod yn etholaethau cwm ar ffurf cwm. Ni ddylai'r un ohonynt fod yn etholaethau yn y Cymoedd yn unig. Ni ddylai'r un ohonynt fod yn gymoedd nad ydynt ar ffurf cwm. I gael chwe etholaeth cwm. Nad yw'r un ohonynt yn gysylltiedig ag ardal nad yw'n gwm – DIM ANGEN. Ni ddylai'r un ohonynt gael eu rhoi mewn etholaethau eraill i ychwanegu at y niferoedd yn yr etholaeth honno – DIM ANGEN. Mae'r cymoedd yn ffurfio cymuned cwm â chlymau cryf a chysylltiadau agos iawn – cysylltiadau lleol agos. Dylent gael eu parchu, ac mae'n rhaid gwneud hynny. Mae angen gwarchod y cymoedd. Maen nhw mor unigryw a llawn cymeriad. Dylai Cymru eu "diogelu". Mewn ffordd, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'u "diogelu" hefyd. Roedd llawer yn credu y dylent gael eu diogelu. Yn sicr, byddent yn dweud bod eu ffordd o fyw yn haeddu ac angen hynny, o leiaf gymaint ag Ynys Môn.

Gall yr holl etholaethau uchod, gan ddilyn y confensiynau ac yn y blaen, fod ar un ffurf. Dyna sydd orau ar gyfer undod, cydlynad a hunaniaeth. Maen nhw i gyd yn perthyn i un etholaeth – yr un etholaeth. Felly, un enw sydd amgenach. Byddai cysyllteiriau'n cael eu hepgor, neu byddai'r ampersand (&) yn cael ei ddefnyddio.

Byddai'r enw Cymraeg yn cael ei ddefnyddio bob amser. Pan fyddai'r enw Cymraeg yn adnabyddus yn Saesneg, ac yr uniaethir ag ef, byddai'n cael ei ddefnyddio. Os yw'n dod gydag enw arall sy'n adnabyddus, byddai'r enw Cymraeg yn dal i gael ei ddefnyddio hyd yn oed os nad oedd yr enw Cymraeg hwnnw'n adnabyddus. Gan ddilyn hyn, gall yr holl etholaethau uchod fod ar un ffurf. Gwneir rhai addasiadau i'r enwau uchod, ond trafodir y rhain gyda'r etholaethau uchod o dan y teitl Enw. Fe allent hefyd adlewyrchu'r etholaeth yn well – yn fwy ffafriol. Rhoddir isod restr o'r etholaethau hyn.

D.S. Mae'r enw Na H-Eileanan An Iar yn cael ei dderbyn a'i ddefnyddio bellach ledled y Deyrnas Unedig. Defnyddiwyd yr enw Ynysoedd y Gorllewin (Western Isles) yn Saesneg bob amser yn flaenorol.

1. Ynys Môn 2. Afon Dwyfor 3. Conwy Abergele 4. Glyndŵr 5. Delyn
6. Alun Shotton 7. Wrecsam 8. Eryri Powys Fadog
9. Powys Wenwynwyn Dinefwr 10. Ceredigion Preseli 11. Penfro(s)
12. Caerfyrddin 13. Llanelli Llchwyr 14. Abertawe – Mwmbwls
15. Abertawe - Port Tennant 16. Castell-nedd Abertawe – Uchaf
17. Port Talbot Maesteg 18. Pen-y-bont 19. Tonyrefail 20. Barri Penarth
21. Caerdydd – Castell 22. Caerdydd – Llandaf 23. Caerdydd – Llanisien
24. Casnewydd – Gaer Caerdydd – Llanrhymni 25. Casnewydd – Maendy
26. Wysg 27. L(l)wyd 28. Ebwy 29. Sirhowi Rhymni 30. Merthyr Aber
31. Cynon Taf 32. Rhondda Trelai

GWELER ETHOLAETHAU CYMRU AR Y MAP YN YR ATODIAD AR DUDALENNAU 41 A 42

Mae'r 32 o etholaethau'n ffurfio gwahanol fathau o etholaethau, fel a ganlyn. Un etholaeth Ynys, un etholaeth Tref a Chwm, un etholaeth Drefol, tair etholaeth Wledig, pedair etholaeth Wledig-Drefol, pedair etholaeth Drefol-Wledig, pedair etholaeth Dref, un etholaeth Drefi, chwe etholaeth Gymoedd, saith etholaeth Ddinas. Mae'r rhain fel a ganlyn.

Etholaeth Ynys- Ynys Môn (1)

Etholaeth Dref a Chwm- Llanelli Llchwyr (1)

Etholaeth Drefol- Alun Shotton (1)

Etholaethau Gwledig- Eryri Powys Fadog, Powys Wenwynwyn Dinefwr, Ceredigion Preseli (3)

Etholaethau Gwledig-Drefol- Afon Dwyfor, Penfro, Caerfyrddin, Wysg (4)

Etholaethau Trefol-Wledig- Conwy Abergele, Glyndŵr, Delyn, Tonyrefail (4)

Etholaethau Tref- * Wrecsam, Castell-nedd Abertawe- Uchaf, Port Talbot Maesteg, Pen-y-bont (4)

Etholaethau Cymoedd- Llwyd, Ebwy, Sirhowi Rhymni, Merthyr Aber, Cynon Taf, Rhondda Trelai (6)

Etholaethau Dinas- Abertawe- Mwmbwls, Abertawe- Port Tennant, Caerdydd- Castell, Caerdydd- Llandaf, Caerdydd- Llanisien, Casnewydd- Gaer Caerdydd- Llanrhymni, Casnewydd- Maendy (7)

Etholaethau Trefi*- Barri Penarth

*Sylwer. Gallai Castell-nedd Abertawe- Uchaf fod yn etholaeth Dref-Wledig.

Gallai Port Talbot Maesteg fod yn etholaeth Dref-Wledig.

Gallai Pen-y-bont fod yn etholaeth Drefi (felly dwy etholaeth Drefi). Mae'r uchod yn dangos y tebygrwydd sydd rhwng rhai etholaethau.

Cynigir yr uchod fel ffordd o ffurfio'r etholaethau gorau oll i bawb. Yn anffodus, ni all hyn ddigwydd i bawb. Gan fod rhai i bawb gyfaddawdu, efallai y gellir dweud nad yw'n orau i unrhyw un, neu'n anaml yn orau. Y dasg sydd o'n blaenau yw ffurfio'r 32 etholaeth orau posibl. Rwy'n siŵr y gallwn gyflawni hyn erbyn dyddiad yr adroddiad yn yr haf 2023. Bydd angen gwneud llawer o waith, wrth gwrs. A llawer o gyfaddawdu. Gwneir y cyflwyniad i helpu tuag at hyn. Rhowch yr etholaethau mewn adrannau perthnasol, os gwelwch yn dda.

Hoffwn ddiolch i bawb yn y Comisiwn am eu gwaith hyd yma ac am y gwaith sydd i ddod. Diolch, fe'i gwerthfawrogir. Mae'r cam cyntaf bron â'i gwblhau. Bydd yr ail gam yn dechrau y flwyddyn nesaf. Gobeithio y cewch chi seibiant da dros y Nadolig.

Gofynnaf i chi gadw fy holl fanylion personol yn breifat ac yn gyfrinachol – enw, cyfeiriad ac yn y blaen. Diolch.

Dymuniadau gorau i chi i gyd.

Yn gywir,




O.N. O ran yr amgylchedd, a fyddai'n well cael y ddwy iaith mewn llyfrau ar wahân i arbed adnoddau – papur, ynni yn ogystal ag arian. Fe allai llyfrau bara'n hwy hefyd.

Atodiadau: Map Etholaethau Cymru – Gweler tudalennau 41 a 42.

Map Etholaethau Cymru gydag allwedd ar y dudalen nesaf (tud. 42)

Atodiad



Er mwyn cywirdeb ac i gael manylion am yr Etholaethau, gweler y testun sy'n rhoi'r Wardiau ar gyfer pob un o dudalen 8 i 35 yn gynwysedig

Rhoddir allwedd i rifau'r Etholaethau drosodd ar dudalen 42

Enwau Etholaethau

Allwedd i rifau'r Etholaethau ar y Map ar dudalen 41

1. Ynys Môn 2. Afon Dwyfor
3. Conwy Abergele 4. Glyndŵr
5. Delyn 6. Alun Shotton 7. Wrecsam
8. Eryri Powys Fadog 9. Powys Wenwynwyn Dinefwr
10. Ceredigion Preseli 11. Penfro(s) 12. Caerfyrddin
13. Llanelli Llŵchwr 14. Abertawe – Mwmbwls
15. Abertawe – Port Tennant
16. Castell-nedd Abertawe – Uchaf
17. Port Talbot Maesteg 18. Pen-y-bont
19. Tonyrefail 20. Barri Penarth
21. Caerdydd – Castell 22. Caerdydd – Llandaf
23. Caerdydd – Llanisien 24. Casnewydd – Gaer Caerdydd – Llanrhyddni
25. Casnewydd – Maendy 26. Wysg
27. L(l)wyd 28. Ebwy 29. Sirhowi Rhymni
30. Merthyr Aber 31. Cynon Taf
32. Rhondda Trelai



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru